



Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)
Cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ2): Cyhoeddwyd ar 5 Mai 2026
Mae'n rhaid derbyn ymatebion erbyn dyddiad cau 6: 29 Mai 2026

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) - ExQ2.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r asesiad cychwynnol o'r prif faterion a ddarparwyd fel **atodiad C** i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 9 Rhagfyr 2026, ond sydd hefyd yn ymdrin â themâu a phynciau eraill. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba barti â buddiant (IP) ac unigolyn arall y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif 2 (sy'n dangos ei fod yn perthyn i ExQ2) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar ansawdd aer ac allyriadau fel ExQ2.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Dylech ymateb i'r cwestiynau drwy ddefnyddio'r swyddogaeth **Lleisio'ch barn** ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol a dewis 'Ymatebion i Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExQ2)', pan ofynnir.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, gallwch gyflwyno'ch atebion drwy ddewis 'Gwneud sylw' a nodi'ch atebion yn y blwch 'Eich sylwadau'. Os ydych yn ateb nifer fwy o gwestiynau, dylech e-bostio'r tîm achos ar connahsquay@planninginspectorate.gov.uk i ofyn am fersiwn Microsoft Word o gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Arholi (ExA), nodi'ch atebion a chadw'r ddogfen gan ddefnyddio enw ffeil priodol. Yna gallwch gyflwyno'r ddogfen wedi'i chwblhau drwy ddewis 'Gwneud sylw' a dewis 'Llwytho ffeiliau'.



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

Acronymau a Thalfyriadau a ddefnyddir:

| | |
|------------------|--------------------------------------|
| AEOI | Effaith Andwyol ar Gyfanrwydd |
| AGI | Gosodiad ar Ben y Tir |
| AIL | Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin |
| ALC | Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
| Acol | Digonolrwydd Ymgynghori |
| AQAL | Lefelau Asesu Ansawdd Aer |
| AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| Erth | Erthygl |
| ALA1981 | Deddf Caffael Tir 1981 |
| BMV | (Tir) Gorau a Mwyaf Amlbwrpas |
| C&IEA | Ardal Adeiladu a Gwella Dangosol |
| BoR | Llyfr Cyfeirio |
| CA | Caffael Gorfodol |
| CAH | Gwrandawriad Caffael Gorfodol |
| CCGT | Tyrbin Nwy Cylch Cyfun |
| CCP | Cyfarpar Dal Carbon |
| CCS | Dal a Storio Carbon |
| CCUS | Dal, Defnyddio a Storio Carbon |
| CEMP | Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu |
| CMTP | Cynllun Teithio Rheoli Adeiladu |
| CO2 | Carbon Deuocsid |
| CoMAH | Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr |
| CQLCP | Pŵer Carbon Isel Cei Connah |
| CWTP | Cynllun Teithio Gweithwyr Adeiladu |
| DCO | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu |
| dDCO | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft |



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

| | |
|--------------|---|
| DEMP | Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu |
| DMRB | Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd |
| DNS | Cymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy |
| EM | Memorandwm Esboniadol |
| EMF | Grym Electromagnetig |
| EN-1 | Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni |
| EN-2 | Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Trydan Nwy Naturiol |
| EN-4 | Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy Naturiol a Phiblinellau Nwy ac Olew |
| EN-5 | Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan |
| ES | Datganiad Amgylcheddol |
| ExA | Awdurdod Archwilio |
| FCC | Cyngor Sir y Fflint |
| FCEMP | Fframwaith Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu |
| FCTMP | Fframwaith Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu |
| FEED | Dyluniadau Peirianeg Pen Blaen |
| FLDP | Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint |
| ha | Hectarau |
| HAT | Llanw Seryddol Uchaf |
| HE | Historic England (Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr) |
| HGV | Cerbydau Nwyddau Trwm |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| ISH | Gwrandawriad Mater Penodol |
| LAT | Llanw Seryddol Isaf |
| LIR | Adroddiad ar yr Effaith Leol |
| ACLI | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| LSE | Effaith Arwyddocaol Debygol |
| MCA | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| MDA | Prif Ardal Ddatblygu |
| MHWS | Penllanw Cymedrig y Gorllanw |



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

| | |
|-----------------|--|
| MMO | Y Sefydliad Rheoli Morol |
| MSL | Lefel Cymedrig y Môr |
| NE | Natural England |
| NGET | National Grid Electricity Transmission |
| NH3 | Amonia |
| NOX | Nitrogen Ocsid |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| NRA | Asesiad Risg Mordwyol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| NTS | Crynodeb Annhechnegol |
| OD | Datwm Ordnans |
| OFH | Gwrandawriad Llawr Agored |
| OLEMP | Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol |
| OSWDS | Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol |
| PHW | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| PRoW | Hawl Tramwy Cyhoeddus |
| RIHRA | Adroddiad i Lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| RR | Sylw Perthnasol |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| SCR | Lleihau Catalytig Detholus |
| SOCG neu | |
| SoCG | Datganiad Tir Cyffredin |
| SoS | Yr Ysgrifennydd Gwladol |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SUDS neu | |
| SuDS | Strategaeth (neu System) Ddraenio Gynaliadwy |
| TCE | Ystad y Goron |
| TP | Meddiant Dros Dro |



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

| | |
|--------------|--|
| TPO | Gorchymyn Cadw Coed |
| UKHSA | Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig |
| UXO | Ordnans Heb Ffrwydro |
| VP | Golygfan |
| LICC | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| WNMP | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| ZOI | Parth Dylanwad |

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (er enghraifft [APP-0XX]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol: [Dolen i Lyfrgell yr Archwiliad](#)

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarw wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

Dyfynnu cwestiynau

Dylid dyfynnu cwestiynau yn y tabl hwn fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, er enghraifft mae ExQ2 1.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.



Planning Inspectorate Arolygiaeth Gynllunio

Mynegai

| | | | | | |
|----|--|----|----|--|----|
| 1 | Cwestiynau cyffredinol a thrawsbynciol | 7 | 18 | Newid yn yr Hinsawdd..... | 10 |
| 2 | Dylunio, paramedrau a manylion eraill y datblygiad arfaethedig | 7 | 19 | Iechyd Dynol | 10 |
| 3 | Dewisiadau amgen y prosiect | 7 | 20 | Damweiniau Mawr a Thrychinebau | 10 |
| 4 | Polisi Cynllunio..... | 7 | 21 | Deunyddiau a Gwastraff..... | 10 |
| 5 | Angen | 7 | 22 | Effeithiau Cronnol a Chyfunol | 10 |
| 6 | Ansawdd Aer..... | 7 | 23 | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu REP5-004 | 11 |
| 7 | Sŵn a Dirgryniad | 8 | | Erthyglau | 11 |
| 8 | Traffig a Thrafnidiaeth..... | 8 | | Atodlen 2 – Gofynion..... | 11 |
| 9 | Ecoleg Ddaearol a Dyfrol | 8 | 24 | Caffael gorfodol, meddiant dros dro ac ystyriaethau tir neu hawliau eraill | 11 |
| 10 | Ecoleg Forol..... | 8 | | | |
| 11 | Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd | 8 | | | |
| 12 | Daeareg a Chyflwr y Tir..... | 9 | | | |
| 13 | Y Dirwedd ac Amwynder Gweledol..... | 9 | | | |
| 14 | Prosesau Ffisegol..... | 9 | | | |
| 15 | Treftadaeth Ddaearol..... | 9 | | | |
| 16 | Treftadaeth Forol | 10 | | | |
| 17 | Materion Economaidd-gymdeithasol, Hamdden a Thwristiaeth | 10 | | | |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|--|--|
| 1 Cwestiynau cyffredinol a thrawsbynciol | | |
| Q1.1 | Yr ymgeisydd | Yr orsaf bŵer bresennol Yn ymateb yr ymgeisydd i ExQ1 1.2, nodir wrth i bŵer ddechrau cael ei gynhyrchu o'r datblygiad arfaethedig, y byddai'r pŵer a gynhyrchir gan yr orsaf bŵer bresennol yn lleihau. Beth yw'r prif ffactor yn y cydbwysedd hwn - capasiti mewnbwn y cyfryngau amrywiol i'r safle, fel tanwydd neu ddŵr oeri; y trwyddedau allyriadau neu ollyngiadau; neu gapasiti'r grid allforio i reoli'r hyn a gynhyrchir? Sut bydd y cyfyngiad hwn yn codi'n ymarferol? |
| Q1.2 | Yr ymgeisydd | Rhyngweithio â datblygiad arfaethedig HyNet Gan dderbyn bod dylunio, adeiladu a gweithredu prosiect HyNet y tu allan i gwmpas y cais hwn, beth fyddai'n debygol o ddigwydd pe na byddai datblygiad HyNet yn gallu ymdopi â'r CO2 sy'n cael ei ollwng o brosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (CQLCP)? Yn benodol, pe na byddai prosiect HyNet yn gallu storio'r CO2 yn ddigonol, a fyddai CQLCP yn parhau i drosglwyddo CO2 i brosiect HyNet neu a fyddai rhyw fath o gyfyngiad yn dod yn ôl ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi i atal CQLCP rhag gweithredu? |
| 2 Dylunio, paramedrau a manylion eraill y datblygiad arfaethedig | | |
| Q2.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |
| 3 Dewisiadau amgen y prosiect | | |
| Q3.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |
| 4 Polisi Cynllunio | | |
| Q4.1 | Yr ymgeisydd | Gweithredu'r datblygiad arfaethedig heb systemau rheoli carbon Yn dilyn ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1 4.3, ac er y nodir bod yr asesiad yn defnyddio'r achos cyfeirio ac, yn unol â hynny, y senario achos gwaethaf ar gyfer allyriadau, a all yr ymgeisydd hefyd roi gwybod i'r ExA am yr allyriadau targed a'r cyfraddau dal CO2 canlyniadol o'r senarios Achos Danfonadwy (uchel) ac Achos Danfonadwy (isel)? |
| 5 Angen | | |
| Q5.1 | Yr ymgeisydd | Adfer y system Yn dilyn ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1 5.1 a 5.3, a 6.2.4.11 y Datganiad Amgylcheddol [CR-020], nid yw'n glir a fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gallu cyfrannu at adfer y rhwydwaith llawn yn dilyn toriad pŵer cenedlaethol neu a allai ailgychwyn ar ei ben ei hun petai toriad pŵer o'r fath yn digwydd. Deëllir y gallai'r Ymgeisydd ddymuno cadw materion masnachol sensitif ynglŷn â hyn yn ôl, os ydynt ar waith, ond er mwyn i'r ExA asesu budd ehangach y datblygiad arfaethedig, mae angen iddo bennu a all y datblygiad arfaethedig hwn wneud cyfraniad ehangach at wydnwch y rhwydwaith cyffredinol neu a fyddai'n hunangynhaliol yn unig. |
| 6 Ansawdd Aer | | |
| Q6.1 | Yr ymgeisydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Dyddodion nitrogen ac amonia Yn ymateb yr ymgeisydd i ExQ1 6.9, nodir y cynigir ailalinio'r amddiffynfeydd rhag llifogydd er mwyn creu morfa heli i ddigolledu ar gyfer y dyddodion nitrogen ac amonia posibl yn ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy ac ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle. Beth yw'r asesiad o fudd morfa heli newydd o gymharu â'r cynnydd arfaethedig mewn dyddodion nitrogen ac amonia ar draws y safleoedd ehangach? Nodir bod maint y morfa heli a grëir yn cael ei asesu yn erbyn ôl troed arfaethedig y cynefin a gollir o ganlyniad i'r gwaith adeiladu ar gyfer yr ollyngfa, ond o ystyried y bwriedir iddo wrthbwysu'r dyddodion nitrogen ac amonia hefyd, ble mae'r mesur o'r effeithiolrwydd hwn? Hefyd, mae'n ymddangos bod y cynnig hwn yn gwrthdaro ychydig â'r datganiad diweddarach yn ExQ1 6.18 lle y dywedir, yn gyntaf, nad yw'r morfa heli'n cael ei greu ond yn hytrach yn caniatáu i brosesau naturiol fod yn drech ac adfer morfa heli; ac yn ail, nad yw'r morfa heli'n cael ei greu i fynd i'r afael ag effeithiau ansawdd aer. A ellir egluro hyn a hefyd cynghori a yw'r Ymgeisydd o'r farn bod y morfa heli sydd newydd ei adfer yn mynd i'r afael â sawl effaith, a'i fod eisiau iddo gael ei ystyried felly? |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|-----------|--|---|
| 7 | Sŵn a Dirgryniad | |
| Q7.1 | Yr ymgeisydd Cyngor Sir y Fflint (FCC) | Lliniaru sŵn traffig ar gyfer preswylwyr lleol ([REP4-046] Cyf:6.6.3.3.7) Mae'r Fframwaith Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (FCTMP) yn cyfeirio at fonitro sŵn mewn lleoliadau dethol a mesurau lliniaru posibl os bydd hyn yn achosi problemau yn ystod y cyfnod adeiladu. Gan nodi y cytunir ar y lleoliadau hyn gydag FCC, ble mae'r lleoliadau posibl ar gyfer monitro sŵn mewn perthynas â'r gymuned leol? Beth fydd yn sbarduno mesurau lliniaru ychwanegol os bydd lefelau sŵn yn rhy uchel? |
| Q7.2 | Yr ymgeisydd | Lefelau sŵn cefndir sylfaenol ar gyfer derbynyddion preswyl O ystyried y cydnabyddir bod lefelau sŵn eisoes yn uchel ar gyfer preswylwyr lleol o'r safleoedd diwydiannol presennol a'r ffordd gerllaw'r gymuned leol, ble mae'r ymgeisydd wedi dangos dylunio "da" yn ei gynnig i helpu i liniaru'r lefel sŵn hon sydd eisoes yn uchel, ar ben y mesurau lliniaru a gynigir i fynd i'r afael â'r sŵn o'i ddatblygiad arfaethedig? |
| Q7.3 | Yr ymgeisydd FCC | Potensial ar gyfer dirgryniadau wrth eiddo cyfagos Yn dilyn ExQ1 7.4, nid yw'n ymddangos bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r risg benodol a allai godi yn sgil dirgryniad i eiddo cyfagos o waith gosod seilbyst ergydol yn ystod y gwaith adeiladu. Nodir yn y Fframwaith Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (FCEMP) Tabl 3: Sŵn a Dirgryniad " <i>gallai technegau tyllu cylchdro yn hytrach nag ergydol gael eu defnyddio i osod seilbyst (os oes angen), lle y bo'n bosibl</i> " petai problemau'n codi, ond sut byddai hyn yn cael ei asesu a'i fonitro, a sut byddai canfyddiadau preswylwyr lleol yn derbyn sylw yn ystod adeiladu? |
| 8 | Traffig a Thrafnidiaeth | |
| Q8.1 | Yr ymgeisydd Awdurdod Priffyrdd FCC | Cynnydd mewn symudiadau traffig ([APP-048] Tabl 10-28) Gan nodi maint canolig yr effeithiau ar Kelsterton Road yn ystod y gwaith adeiladu, mae'r FTCMP yn cyfeirio at fonitro'r effaith hon a mesurau lliniaru ychwanegol os bydd angen. Ymhelaethwch ar y system fonitro hon, y sbardunau ar gyfer mesurau lliniaru ychwanegol a beth allai'r mesurau lliniaru hyn ei gynnwys. |
| 9 | Ecoleg Ddaearol a Dyfrol | |
| Q9.1 | Yr ymgeisydd CNC | Safle Caeau Gronant ([REP5-032] Cyf: 6.13.4) Gan nodi'r cofnodion arolygu presennol ar gyfer y rhywogaethau adar ar safle Caeau Gronant, pa effaith y mae'r bwriad i neilltuo'r safle ar gyfer adleoli rhywogaethau o safle Cei Connah yn debygol o'i chael ar ddefnydd ohono gan y rhywogaethau presennol, a sut bydd y gwaith arfaethedig i ddatblygu safle Caeau Gronant a'i wneud yn fwy deniadol i'r rhywogaethau a ddadleolwyd yn effeithio ar y rhywogaethau presennol hyn? Rhowch ddiweddariad gyda'r dystiolaeth briodol barhaus o ddefnydd presennol o safle Caeau Gronant gan rywogaethau eraill, yn enwedig rhywogaethau rhestredig, a beth yw'r effeithiau tebygol ar y rhywogaethau presennol hyn o ganlyniad i'r bwriad i adleoli rhywogaethau ychwanegol i'r safle? Cadarnhewch a yw safle Caeau Gronant eisoes yn gweithredu fel tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ai peidio. Os oes angen gwneud gwaith ar safle Caeau Gronant er mwyn iddo fod yn addas i'w ddefnyddio gan Ylfinirod, fel y cynigir yn y Strategaeth Rheoli Gylfinirod, a fydd angen caniatadau ar wahân ar gyfer y gwaith hwn, sut bydd y rhain yn cael eu sicrhau a beth yw'r risgiau efallai na fyddant yn symud ymlaen os yw'r cais ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn llwyddiannus ond ni ellir gwneud y gwaith arfaethedig ar safle Caeau Gronant? |
| 10 | Ecoleg Forol | |
| Q10.1 | Yr ymgeisydd | Adeiladu'r ollyngfa dŵr wyneb arfaethedig ([REP4-021] Cyf: 6.2.12.1.10) Nodir y bydd yr ollyngfa newydd yn cael ei gosod gan ddefnyddio naill ai dulliau di-ffos neu dechnegau cloddio agored, gan ymestyn o'r cefnfor presennol. A ellir cadarnhau'r dechneg adeiladu hon, oherwydd bydd cloddio agored yn debygol o gael effeithiau gwahanol ar y cynefin na dulliau di-ffos, ac felly bydd yr ystyriaethau'n wahanol. |
| 11 | Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd | |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|--|---------------------|--|
| Q11.1 | Yr ymgeisydd CNC | Casglu a gollwng dŵr wyneb, a diogelu'r amgylchedd ([CR1-022] Cyf: 6.2.5.3.40 a [REP4-038] Cyf: 5.3 OSWDS) Yn ymateb yr ymgeisydd i ExQ1 11.3, cynghorir "Nid oes unrhyw gyrsiau dŵr agored wedi'u lleoli yn y Brif Ardal Ddatblygu. Mae'r cyrsiau dŵr agosaf i lawr yr afon wedi'u lleoli y tu hwnt i'r ffin ogledd-ddwyreiniol, o fewn ACA Aber Afon Dyfrdwy gyfagos, sydd o fewn ardal o forfa heli". Mae'n ymddangos bod nant Old Rockcliffe yn croesi'r brif ardal ddatblygu ac mae'n ymddangos bod nant Oakenholt yn agos hefyd i'r gogledd o'r brif ardal ddatblygu. Deïllir efallai nad yw'r nentydd hyn yn gyrsiau dŵr sianel agored ac yn sianelu trwy'r safle o bosibl, ond o ystyried bod y nodweddion hyn eisoes yn tarfu ar yr ardal, oni fyddai'n bosibl dargyfeirio casglu dŵr wyneb o'r datblygiad arfaethedig a chysylltu â'r cyrsiau dŵr hyn neu ollwng iddynt yn hytrach nag adeiladu cefnurf newydd o fewn yr aber? Beth yw capasiti'r nentydd hyn i dderbyn llifoedd ychwanegol, a phetaent yn cael eu sianelu, beth fyddai effaith cynyddu maint y cwlfertau o gymharu ag adeiladu'r ollyngfa arfaethedig o fewn yr aber? |
| Q11.2 | Yr ymgeisydd CNC | Perygl llifogydd ([CR1-032]) Beth yw risg tonnau'n mynd dros amddiffynfeydd mewn amryw ffyrdd yn sgil gweithred gyfunol llanw uchel, ymchwydd, tonnau gan gynnwys tonnau gwynt, tonnau ymchwydd a thonnau cyfnod hir ar y safle; ac a yw hyn yn cyflwyno senario perygl llifogydd gwahanol i'r asesiad lefel dŵr eithafol a gyflwynwyd? O ystyried natur arfordirol agored y datblygiad arfaethedig, beth yw risg tonnau'n mynd dros amddiffynfeydd a thorri'r amddiffynfeydd llifogydd, ac a yw hyn yn dwysáu'r senario perygl llifogydd? Nodir bod ymateb yr ymgeisydd i ExQ1 yn datgan yr ystyriwyd ystod o senarios newid hinsawdd, ond o ran asesu'r senarios credadwy mwyaf ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, fel yr amlinellir yn arweiniad y llywodraeth, a all yr ymgeisydd gadarnhau bod yr ystod lawn o senarios wedi cael eu hystyried, gan gynnwys yn benodol yr asesiad cynnydd H++ yn lefel y môr ar gyfer seilwaith cenedlaethol allweddol. |
| Q11.3 | Yr ymgeisydd CNC | Gwasanaethau dŵr budr ([CR1-020] Cyf: 6.2.4.2.50 a [CR1-32] 6.2.13..3.10) Pam mae'r rhan o'r cyfleuster trin dŵr budr presennol ar y safle "islaw'r safon" ac yn cael ei gasglu a'i symud ymaith i'w waredu, ac a all yr ymgeisydd gadarnhau na fydd yr un sefyllfa'n wir ar gyfer y datblygiad arfaethedig? |
| 12 Daareg a Chyflwr y Tir | | |
| Q12.1 | Yr ymgeisydd | Posibilrwydd presenoldeb ordnans heb ffrwydro O ystyried bod asesiad risg cyn astudiaeth ddesg wedi argymhell bod astudiaeth ddesg fanwl yn cael ei chomisiynu, pam mae hyn wedi cael ei ohirio tan y cam adeiladu, a beth yw'r risg y gallai'r astudiaeth bellach hon amlygu risgiau ychwanegol i unrhyw waith galluogi cyn-gychwyn? |
| Q12.2 | Yr ymgeisydd | Tir halogedig Beth yw risgiau dod ar draws deunydd peryglus o ddatgomisiynu'r orsaf bŵer gynharach a'i gyflwyno i'r amgylchedd wrth gloddio yn yr Ardal Adeiladu a Gwella Dangosol (C&IEA), a sut byddai'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru? |
| 13 Y Dirwedd ac Amwynder Gweledol | | |
| Q13.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |
| 14 Prosesau Ffisegol | | |
| Q14.1 | Yr ymgeisydd CNC | Rheoli traethlin Nodir bod y cynnig i ailalinio'r amddiffynfeydd i'r de o'r datblygiad arfaethedig o fewn y C&IEA yn groes i'r polisi a ffeirir yn y cynllun rheoli traethlin. Beth yw goblygiadau hyn i randdeiliaid eraill a llofnodwyr y cynllun rheoli traethlin, beth yw'r risg y bydd cyfradd orlifo'r safle a osodwyd ymhellach yn ôl yn cyflymu, sy'n gyffredin lle mae gweithgarwch ailalinio a reolir yn digwydd, a beth mae hyn yn ei olygu i gyfraddau erydu arfordirol gerllaw safle'r ailalinio a reolir arfaethedig? |
| 15 Treftadaeth Ddaearol | | |
| Q15.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|-----------|--|--|
| 16 | Treftadaeth Forol | |
| Q16.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |
| 17 | Materion Economaidd-gymdeithasol, Hamdden a Thwristiaeth | |
| Q17.1 | Yr ymgeisydd FCC | Cymorth ychwanegol i'r gymuned leol Beth all yr ymgeisydd ei wneud i gefnogi'r gymuned leol ymhellach o ran y materion a godwyd yn OFH1, gan gynnwys unrhyw gymorth gydag anghenion ynni ar gyfer y pyllau nofio lleol a'r gwelliannau i'r gwaith ar ffin eu safle i leihau'r risg i fyfyrwyr sy'n cerdded i'r coleg? |
| 18 | Newid yn yr Hinsawdd | |
| Q18.1 | Yr ymgeisydd | Allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi ([REP5-072]) O ystyried cyflwyniad CESL erbyn Dyddiad Cau 5, esboniwch, gan gyfeirio at y Datganiad Amgylcheddol a'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA), sut mae'r Ymgeisydd yn fodlon bod y dull o nodi ac asesu allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi (o'r ffynnon i'r tanc), gan gynnwys methan, yn ddigonol i alluogi'r Awdurdod Archwilio a'r Ysgrifennydd Gwladol i ddeall ac asesu arwyddocâd effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar y newid yn yr hinsawdd. |
| Q18.2 | Cyfraith Gwyddoniaeth Argyfwng Hinsawdd (CESL) | Allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi <u>Eglurwch yn gryno ba ofyniad/gofynion o Reoliad 5(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 yr honnwch nad ydynt wedi'u bodloni, ac esboniwch pam, yn eich barn chi, mae'r materion a godwyd yn gyfystyr â diffyg cyfreithiol yn y Datganiad Amgylcheddol yn hytrach nag anghytundeb â sut mae'r Ymgeisydd wedi arfer barn broffesiynol.</u> |
| 19 | Iechyd Dynol | |
| Q19.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |
| 20 | Damweiniau Mawr a Thrychinebau | |
| Q20.1 | Yr ymgeisydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig (UKHSA) Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) | Rhyddhau CO2 yn ddamweiniol ([CR1-020] Cyf: 6.2.4.4.15) Gan nodi ymateb yr ymgeisydd i ExQ1 20.1 a'r darpariaethau a'r mesurau sydd i'w cyflawni i atal rhyddhau CO2 yn ddamweiniol o'r Cyfarpar Dal Carbon (CCP) yn y brif ardal ddatblygu neu'r biblinell i goridor HyNet, ar ba ffurf y byddai'r posibilrwydd o ryddhau CO2 yn ddamweiniol yn digwydd? A oes unrhyw gymunedau neu gynefinoedd penodol sydd mewn mwy o berygl nag eraill oherwydd eu bod ar lefel isel neu'n agos i'r mannau rhyddhau posibl? Sut byddai'r cymunedau hyn yn cael gwybod am achos o ryddhau'n fwriadol neu'n ddamweiniol; a pha fesurau a fyddai'n cael eu cymryd i wasgaru'r CO2 i lefelau cefndir naturiol? |
| 21 | Deunyddiau a Gwastraff | |
| Q21.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |
| 22 | Effeithiau Cronnol a Chyfunol | |
| Q22.1 | | Nid oes cwestiynau ychwanegol am y pwnc hwn ar gyfer y Dyddiad Cau hwn |

| ExQ2 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|--|---|--|
| 23 | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu REP5-004 | |
| Erthyglau | | |
| Q23.1 | Yr ymgeisydd | Erthygl 24: Gwaith amddiffynnol i adeiladau Rhowch gyfiawnhad dros gynnwys y pŵer hwn pan nad oes unrhyw adeiladau wedi'u nodi o fewn Terfynau'r Gorchymyn nad ydynt ym mherchnogaeth yr Ymgeisydd, a phan nad oes yr un ohonynt wedi'u nodi'n agos at y gwaith arfaethedig. |
| Q23.2 | Yr ymgeisydd | Erthygl 33: Caffael isbridd neu ofod awyr yn unig Beth yw'r cyfiawnhad dros gaffael hawliau gofod awyr? Nid yw'r Ymgeisydd wedi gwneud unrhyw arwydd o ddefnyddio gofod awyr i hwyluso neu weithredu'r gwaith. Rhowch gyfiawnhad dros gynnwys y pŵer hwn neu ddiwygiwch yr erthygl i sicrhau mai dim ond hawliau i isbridd sy'n cael eu ceisio. |
| Q23.3 | Yr ymgeisydd | Erthygl 51: Gweddillion dynol [REP5-004] Yn dilyn ymateb yr ymgeisydd i ExQ1 23.6 a chan nodi bod yr erthygl hon wedi cael ei dileu o nifer o Orchmynion Cydsyniad Datblygu (DCOau) y cydsyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol iddynt yn ddiweddar, cyfiawnhewch pam mae risg dod ar draws gweddillion dynol mor uchel fel bod angen cynnwys yr erthygl hon a pham mae'r mesurau y mae'n eu darparu'n fwy economaidd neu'n arbed mwy o amser na'r rhai a roddir gan y darpariaethau arferol ar gyfer dod ar draws gweddillion dynol yn annisgwyl yn Neddf Claddu 1857. |
| Atodlen 2 – Gofynion | | |
| Q23.4 | Yr ymgeisydd | Cynlluniau a dogfennau rheoli Mae'r ymgeisydd yn cynghori yr hoffai ddefnyddio'r term "yn unol â ... yn fras" i roi rhywfaint o hyblygrwydd. Fodd bynnag, gan fod y cynlluniau a'r manylion yn cael eu datblygu wrth i'r dyluniad symud ymlaen, pam byddai angen y term hwn yn hytrach nag "yn unol â"? |
| 24 Caffael gorfodol, meddiant dros dro ac ystyriaethau tir neu hawliau eraill | | |
| Q24.1 | Yr ymgeisydd | Lleiniau tir ar hyd y coridor CO2 Rhowch ddiweddariad ar y trafodaethau â'r holl unigolion yr effeithir arnynt ynglŷn â chaffael hawliau isbridd yn barhaol ar hyd y coridor CO2 arfaethedig. |
| Q24.2 | Yr ymgeisydd | Defnyddio cyn lleied o bwerau â phosibl A all yr Ymgeisydd esbonio sut y lleihawyd cwmipas pwerau caffael gorfodol gymaint â phosibl er mwyn ceisio peidio â tharfu ar hawliau unigolion yr effeithir arnynt, a pha fesurau diogelu fyddai ar waith petai'r pwerau hynny'n cael eu cadarnhau? |